Mynydd Lluest y Graig

prosiect ynni adnewyddadwy / renewable energy project

Fferm Wynt Pen y Cymoedd Wind Farm

Mae Vattenfall yn cynnig prosiect ynni adnewyddadwy ym Mynydd Lluest y Graig yng ngogledd Powys

Heddiw yw'r cyfle cyntaf i gymryd rhan yn y broses – i nodi materion a chyfleoedd posibl sy'n bwysig i chi. Mae'r manylion sy'n cael eu cynnwys yma yn cynrychioli ein cynigion cychwynnol. Mae hyn yn debygol o esblygu cyn cyflwyno cais cynllunio gan ein bod yn ystyried adborth gan randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Mae cyfres o fyrddau gwybodaeth ar agweddau allweddol ar y prosiect, yr ymchwil rydym yn ei wneud a'r materion a'r cyfleoedd rydym eisiau eu harchwilio gyda chi.

Darllenwch y byrddau a manteisiwch ar y cyfle i godi cwestiynau, llenwi'r ffurflen adborth, darparu gwybodaeth neu rannu pryderon a syniadau gyda ni, fel y gallwn ddeall y materion pwysig y mae angen inni eu hystyried.

Vattenfall

Vattenfall yw un o gynhyrchwyr a manwerthwyr trydan a gwres mwyaf Ewrop gyda thua 20,000 o weithwyr. Ers dros 100 mlynedd rydym wedi bod yn trydaneiddio diwydiannau, cyflenwi ynni i gartrefi pobl a moderneiddio ein ffordd o fyw trwy arloesi a chydweithredu. Ein nod yw gwneud byw heb danwydd ffosil yn bosibl o fewn un genhedlaeth.

Rydym wedi bod yn gweithio yn y DU am dros ddeng mlynedd, yn datblygu prosiectau ynni heb danwydd ffosil. Prosiect ynni adnewyddadwy Mynydd Lluest y Graig yw ein prosiect arfaethedig diweddaraf yng Nghymru yn dilyn cwblhau fferm wynt ar y tir Pen y Cymoedd yn llwyddiannus, yn ne Cymru.

Vattenfall is proposing a renewable energy project at Mynydd Lluest y Graig in north Powys

Today is the first opportunity to get involved in the process – to identify issues and potential opportunities that are important to you. The details included here represent our initial proposals. This is likely to evolve prior to submission to planning as we take into account feedback from stakeholders and interested parties.

There are a series of information boards on key aspects of the project, the research we are undertaking and the issues and opportunities we are looking to explore with you.

Please read the boards and take the opportunity to raise questions, complete the feedback form, provide information or share concerns and ideas with us, so that we can understand the important issues that we need to consider.

About Vattenfall

Vattenfall is one of Europe's largest producers and retailers of electricity and heat with approximately 20,000 employees. For more than 100 years we have electrified industries, supplied energy to people's homes and modernised our way of living through innovation and cooperation. Our goal is to make fossil free living possible within a generation.

We have been working in the UK for more than ten years, developing fossil fuel-free energy projects. Mynydd Lluest y Graig renewable energy project is our latest proposed project in Wales following the successful delivery of our flagship onshore wind farm Pen y Cymoedd, located in South Wales.

VATTENFALL

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).



Y safle arfaethedig

Ardal o dir pori uchel gyda choedwigaeth fasnachol yn y de-orllewin.

Technoleg

Mae technolegau gwynt, solar a hydrogen a storio batris yn cael eu trafod ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd.

Gwynt

Hyd at 18 tyrbin, hyd at 200m o uchder i flaen y llafn, gyda'r potensial i gynhyrchu hyd at 135 MW, digon o drydan ar gyfer tua 90,000 cartref* y flwyddyn.

Gallai 1 cylchdro gan dyrbin sengl bweru tŷ cyfartalog yn y DU am 32 awr.*

Gallai 1 cylchdro o'r fferm wynt bweru tŷ cyfartalog yn y DU am 24 diwrnod.*

*Cyfeiriad: RUK industry standard.

The proposed site

An area of upland grazing land with commercial forestry in the south-west.

Technology

Wind, solar, hydrogen and battery storage technologies are being explored on this project at this stage.

Wind

Up to 18 turbines, up to 200m to blade tip, with the potential to generate up to 135 MW, enough electricity for around 90,000 homes* per annum.

1 rotation of a single turbine revolution could power an average UK house for 32 hours.*

1 rotation of the wind farm could power an average UK house for 24 days.*

*Reference: RUK industry standard.

VATTENFALL

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).

Newid hinsawdd, polisi a chynllunio

Beth yw'r broses gynllunio?

Mae yna gyfreithiau a pholisïau sy'n llywio penderfyniadau am brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru.

Cynhesu byd-eang sy'n gyrru newid hinsawdd a'r prif achos yw llosgi tanwydd ffosil. Rhaid inni leihau ein defnydd o lo, olew a nwy a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel. Dros y degawdau nesaf bydd yr angen am gynnydd mewn mynediad at ffynonellau ynni glân yn tyfu hyd yn oed ymhellach ar gyfer teithio, busnes a hamdden. Mae trydaneiddio cerbydau yn un enghraifft o'r angen cynyddol hwn yn y dyfodol.

Cyhoeddodd Cymru argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019, a nawr mae ganddi darged i gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gynhyrchu 70% o'i thrydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Amcangyfrifir mai'r ganran ar hyn o bryd yw tua 36.1%.*

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y cais cynllunio, rydym yn ymgynghori'n anffurfiol â'r gymuned leol yn y cyfnod cynnar hwn, gydag ymgynghoriad pellach y flwyddyn nesaf. Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghorai statudol.

Mae Mynydd Lluest y Graig yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, a bydd y cais cynllunio'n cael ei ystyried gan arolygydd cynllunio annibynnol. Bydd yn ymgymryd â'i ymgynghoriad ei hun a gall gynnal gwrandawiadau neu ymchwiliad, cyn rhoi argymhellion i Weinidog Llywodraeth Cymru.

Datganodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020. Mae hyn yn cynnwys uchelgais i leihau ei allyriadau carbon i sero net erbyn 2030.

*Cyfeiriad: Regional Electricity Generation and Supply 2016-2020 (publishing.service.gov.uk)

Climate change, policy and planning

What is the planning process?

There are laws and policies that shape decisions on large scale renewable energy projects, including the Welsh Government's Future Wales: The National Plan 2040.

Global warming is driving climate change and the primary cause is the burning of fossil fuels. We must reduce our consumption of coal, oil and gas and increase generation of renewable and low carbon energy. Over the coming decades the need for increased access to clean sources of energy will grow even further for both travel, business and leisure. Vehicle electrification is one such example of this growing future need.

Wales declared a climate emergency in April 2019, and now has a target to reach net zero by 2050. The Welsh Government aims to generate 70% of its electricity from renewable energy by 2030. Currently it is estimated that this figure is in the region of 36.1%.*

As part of the preparation for the planning application, we are consulting informally with the local community at this early stage, with further consultation next year. Powys County Council is a statutory consultee.

Mynydd Lluest y Graig is a Development of National Significance, and the planning application will be considered by an independent planning inspector. They will undertake their own consultation and may hold hearings or an inquiry, before giving recommendations to the Welsh Ministers, who take the final planning decision.

Powys County Council declared a climate emergency in September 2020. This includes an ambition to reduce its carbon emissions to net zero by 2030.

*Reference: Regional Electricity Generation and Supply 2016-2020 (publishing.service.gov.uk)

VATTENFALL

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae'r datblygiad arfaethedig o fewn ardal a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt fel y'i diffinnir yn Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod rhagdybiaeth o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr, cyn belled â bod y prosiect yn bodloni gofynion cynllunio trylwyr.

Er mwyn ein cynorthwyo i ddylunio'r prosiect ynni adnewyddadwy gorau y gallwn, mae angen i ni gynnal arolygon technegol i ddeall yr amodau amgylcheddol presennol ar y safle.

Yna byddwn yn asesu sut y gallai adeiladu a gweithredu'r prosiect effeithio ar y rhain, ac rydym yn cymryd camau i naill ai osgoi neu liniaru'r effeithiau hyn lle bo modd.

Gelwir y rhan hon o'n gwaith yn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA), a chynhelir pob arolwg ac asesiad gan weithwyr proffesiynol achrededig sydd â phrofiad o weithio ar brosiectau ynni.

Mae cwmpas yr AEA hefyd yn cael ei lywio gan arbenigwyr mewn cyrff cyhoeddus arbenigol, megis yr awdurdod lleol, Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu fel ymgyngoreion statudol.

Mae mwy o fanylion am y ddeddfwriaeth, y polisi a'r canllawiau yr ydym yn eu dilyn a'r gwahanol arolygon ac asesiadau y mae angen inni eu cynnal yn yr Adroddiad Cwmpasu a gyflwynwyd gennym i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, ym mis Gorffennaf 2022 **(Cyfeirnod: DNS/3213154 – Prosiect Ynni Mynydd Lluest y Graig).**

Environmental Impact Assessment (EIA)

The proposed development is within a pre-assessed area for wind as defined by the Welsh Government's Future Wales: The National Plan 2040. This means there is a presumption in favour of large-scale wind energy development, as long as the project meets rigorous planning requirements.

To assist us in designing the best renewable energy project we can, we need to carry out technical surveys to understand the current environmental conditions on site.

We then assess how the construction and operation of the project might impact these, and we take measures to either avoid or mitigate these impacts where possible.

This part of our work is called the Environmental Impact Assessment (EIA), and all surveys and assessments are undertaken by accredited professionals with experience of working on energy projects.

The scope of the EIA is also informed by experts in specialist public bodies, such as the local authority, Cadw and Natural Resources Wales, who act as statutory consultees.

More detail about the legislation, policy and guidance that we follow and the different surveys and assessments we need to undertake are in the Scoping Report we submitted to Planning and Environment Decisions Wales, in July 2022 **(Reference: DNS/3213154 – Mynydd Lluest y Graig Energy Project).**

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

VATTENFALL

Correct at time of publication (October 2022).

Tirwedd a Gweledol

Byddwn yn asesu newidiadau posibl i dirwedd ffisegol, cymeriad tirwedd ac effeithiau gweledol. Ein nod yw sicrhau cynllun cytbwys. Mae ymchwil desg, ffotograffiaeth, modelu a delweddu ffotograffig (ffotogyfosodiadau) i gyd yn adnoddau sy'n ein helpu i lunio ein Hasesiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol. Rydym hefyd wedi paratoi model 3-dimensiwn rhyngweithiol sy'n rhoi argraff o sut y gallai'r safle edrych o wahanol leoliadau, sydd ar gael yn yr arddangosfa hon. Cymerwch olwg os gwelwch yn dda.

Ecoleg a Chadwraeth Natur

Byddwn yn cynnal Asesiad Effaith Ecolegol llawn ar fflora a ffawna. Rydym eisiau nodi'r cyfyngiadau ecolegol a pha fesurau lliniaru a allai fod. Ein nod yw sicrhau bod enillion net mewn bioamrywiaeth o ganlyniad i'n prosiect. Mae'r rhywogaethau sydd o ddiddordeb ar y safle'n cynnwys ystlumod, madfallod dŵr cribog, mochyn daear, dyfrgwn, llygod pengron y dŵr, pathewod brown, a rhai ymlusgiaid.

Adareg

Bydd Asesiad o'r Effaith Adaregol yn cael ei gynnal gan aseswr adarol ac adaregol arbenigol.

Fel rhan o'r asesiad, rydym yn cofnodi gweithgaredd hedfan, safleoedd nythu a chlwydo adar o fewn y safle. Unwaith y byddwn wedi nodi eu harferion, rydym mewn sefyllfa well i geisio osgoi unrhyw effeithiau a rhoi mesurau ar waith i helpu eu cynefinoedd.

Mae sawl rhywogaeth o adar wedi'u nodi mewn arolygon hyd yma, gan gynnwys y barcud coch, y dylluan wen, yr wylan benddu, y cwtiad aur, y gwalch glas, a'r cudyll coch.

Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol

Mae ein Hasesiad Treftadaeth Archeolegol a Diwylliannol yn cael ei lywio gan ymchwil desg a theithiau cerdded manwl gan arbenigwyr.

Gwyddom fod asedau pwysig ar y safle gan gynnwys Heneb Gofrestredig y Root Store, tŷ hir canoloesol, rhywfaint o nodweddion o'r Oes Efydd, a nodweddion ôl-ganoloesol gan gynnwys chwareli, adeiladau, ffermydd ac argaeau.

Ein nod yw osgoi, cyn belled ag y bo modd, y lleoliadau treftadaeth hysbys hyn trwy ddylunio'r prosiect yn ofalus. Byddwn yn ymgynghori â Cadw ac eraill i geisio cyngor ar fesurau lliniaru, a byddwn yn tynnu ar ein profiad o adeiladu prosiectau mewn modd sensitif ar safleoedd tebyg.

Trafnidiaeth a Thraffig

Mae disgwyl i'r prif lwybr at y safle ddechrau o borthladd yn Ellesmere neu Lerpwl ac yn dod oddi ar yr A483 mewn pwynt mynediad newydd i'r safle. Nid yw'r union lwybr wedi'i benderfynu eto ac mae nifer o opsiynau mynediad i'r safle yn cael eu hadolygu. Bydd Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu yn amlinellu'r holl fesurau i reoli danfoniadau a thraffig, megis arwyddion ffordd dros dro, cyfyngiadau ar amseriad danfoniadau a symudiadau cerbydau, cydymffurfio â rheoliadau lechyd a Diogelwch a mesurau lliniaru posibl.

Bydd traciau newydd a rhai wedi'u huwchraddio yn darparu mynediad rhwng mynedfa'r safle, tyrbinau gwynt a seilwaith arall.

Sŵn

Mae cyfyngiadau cyfreithiol llym ar y lefelau sŵn ychwanegol a gynhyrchir gan weithrediad fferm wynt. Byddwn yn monitro sŵn yn yr eiddo sydd agosaf at y tyrbinau yn unol ag asesiad ETSU-R-97 a gydnabyddir yn rhyngwladol a chanllawiau arfer da y Sefydliad Acwsteg. Rydym hefyd yn ystyried effaith sŵn cronnol ffermydd gwynt eraill a seilwaith cyfagos.

Byddai asesiad o allyriadau sŵn o dechnolegau eraill, megis batris, yn cael ei gynnal yn unol â Safon Brydeinig BS 4142:2014 – Dull ar gyfer graddio ac asesu sain diwydiannol a masnachol.





Hydroleg, Hydroddaeareg a Daeareg

Mae sawl corff o ddŵr, cyrsiau dŵr a mawn ar y safle. Bydd ein harolygon yn ystyried y rhain yn ogystal â phriddoedd a chreigiau, mewn perthynas â diogelu ansawdd dŵr a draenio.

Mawn

Mae ein hymchwil hyd yn hyn yn dangos bod ardaloedd o fawn y bydd angen eu hystyried yn ofalus wrth i ni ddylunio'r parc ynni.

I wneud yn siŵr ein bod yn lleihau effeithiau ac yn archwilio'n llawn sut y gallai'r prosiect gyfrannu at warchod mawn, adfer a gwella cynefinoedd lleol, bydd Cynllun Rheoli Mawn Drafft yn cael ei ddatblygu.

Y nod yw lliniaru effeithiau posibl ar gynefinoedd mawn a mawndir, yn y lle cyntaf trwy leihau cloddio ac aflonyddu ar fawn, ac yna adolygu opsiynau ar gyfer ailddefnyddio.

Bydd modelu hydrolegol a thechnegau archwilio yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar leoliad y tyrbinau arfaethedig a'r seilwaith cysylltiedig er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.

Yn ne Cymru, rydym yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni un o'r prosiectau adfer mawndir mwyaf yn Ne Prydain a byddwn yn dod â'r profiad hwnnw i'r safle hwn.

Hedfan, Telathrebu, a Chysgodion Symudol

Bydd nifer o gyfyngiadau hedfan allweddol yn cael eu hasesu'n fanwl a chynhelir ymgynghoriad ag Awdurdod Hedfan Sifil y DU, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol.

Bydd goleuadau hedfan yn ofynnol oherwydd uchder arfaethedig y tyrbinau.

Ymgynghorir â chwmnïau telathrebu i sicrhau nad yw'r seilwaith ynni yn ymyrryd ag unrhyw offer telathrebu.

Bydd ymchwil desg yn pennu unrhyw effeithiau ar signalau teledu daearol. Mae'n annhebygol y gwelir unrhyw effeithiau.

Cysgodion symudol yw lle mae cysgodion sy'n cael eu taflu wrth i lafnau tyrbinau gwynt symud yn glanio ar eiddo ac yn tynnu sylw. Byddwn yn dylunio'r safle i osgoi unrhyw effaith o gysgodion symudol ar gartrefi neu gyfleusterau lleol.

Coedwigaeth

Mae mwy na 600 hectar o goedwig ar y safle sydd mewn perchnogaeth breifat ac yn cael ei reoli'n weithredol at ddibenion masnachol. Mae'r ardaloedd o goedwig yn cynnwys rhywogaethau coed anfrodorol yn bennaf.

Cynhelir asesiad gwaelodlin coedwigaeth i asesu'r cnydau presennol, a chynhelir dadansoddiad o effaith y datblygiad arfaethedig a'r effaith ar gnydau'r presennol a'r dyfodol.

Bydd angen torri rhywfaint o goed, ond bydd coetir sydd wedi'i ddynodi'n goetir lled-naturiol hynafol yn cael ei osgoi, a chynigir plannu cydadferol.

Cysylltiad grid

Bydd Mynydd Lluest y Graig yn cael ei gysylltu â'r grid cenedlaethol. Mae'r cysylltiad grid yn destun cais cynllunio ar wahân. Nid yw llwybr y grid na'r pwyntiau cysylltu wedi'u pennu eto.

Cydnabyddir yn eang bod cyfyngiad ar gapasiti'r grid ar draws y DU gyfan, ac yn enwedig yn y canolbarth. Nid oes digon o gapasiti grid i ymdrin â'r defnydd cynyddol o drydan, ac wrth inni ddatgarboneiddio a symud i ffwrdd o ddefnyddio tanwyddau ffosil fel olew a nwy, bydd ein galw am drydan yn codi hyd yn oed yn fwy. Mae trydaneiddio cerbydau yn un enghraifft o'r angen cynyddol hwn yn y dyfodol.

Mae Llywodraethau Cymru a'r DU, a'r rheoleiddiwr ynni, Ofgem, ochr yn ochr â'r cwmnïau rhwydwaith grid yn gweithio gyda'i gilydd i lunio cynllun rhwydwaith a fydd yn sicrhau ein bod yn cyrraedd sero net erbyn 2050.

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

VATTENFALL

Correct at time of publication (October 2022).

Landscape and Visual

We will assess potential changes to physical landscape, landscape character, and visual impacts. Our aim is to achieve a well-balanced layout. Desk based research, photography, modelling and photographic visualisations (photomontages) are all tools that help us put together our Landscape and Visual Impact Assessment (LVIA). We have also prepared an interactive 3-dimensional model which gives an impression of how the site might look from different locations, available at this exhibition. Please take a look.

Ecology and Nature Conservation

We will undertake a full Ecological Impact Assessment (EcIA) on flora and fauna. We want to identify the ecological constraints and what mitigation measures there might be. Our aim is to ensure that there is a biodiversity net gain as a result of our project. The species that are of interest on site include bats, great crested newts, badger, otter, water vole, hazel dormouse, and some reptiles.

Ornithology

An Ornithological Impact Assessment will be carried out by a specialist avian and ornithological assessor.

As part of the assessment, we record the flight activity, nesting and roosting sites of birds within the site. Once we have identified their habits, we are better placed to try to avoid any impacts and put in place measures to support their habitats.

There are several bird species identified in surveys to date, including red kite, barn owl, blackheaded gull, golden plover, goshawk, and kestrel.

Archaeology and Cultural Heritage

Our Archaeological and Cultural Heritage Assessment is informed by desk research and a detailed walkover by experts.

We know that there are important assets on site including the Root Store Scheduled Monument, a medieval long house, some Bronze Age, and post-medieval features including quarries, buildings, farmsteads, and dams.

Our aim is to avoid, as far as possible, these known heritage locations through careful project design. Consultation will be undertaken with Cadw and others to seek advice on mitigation measures, and we will draw on our experience of sensitively constructing projects on similar sites.

Transport and Traffic

The main route to site is expected to be from a port at either Ellesmere or Liverpool and coming off the A483 at a new site access point. The exact route has yet to be determined and there are a number of access options to site under review. A Construction Transport Management Plan will outline all measures to manage deliveries and traffic, such as temporary road signage, restrictions to timing of deliveries and vehicle movements, compliance with Health & Safety regulations and possible mitigation measures.

New and upgraded tracks will provide access between the site entrance, wind turbines and other infrastructure.

Noise

There are strict legal limits to the additional noise levels produced by the operation of a wind farm. We will undertake noise monitoring at properties closest to the turbines in accordance with the internationally recognised ETSU-R-97 assessment and the good practice guidance of the Institute of Acoustics. We also consider the cumulative noise impact of other wind farms and infrastructure close by.

The assessment of noise emissions from other technology, such as batteries, would be undertaken in accordance with British Standard BS 4142:2014 – Method for rating and assessing industrial and commercial sound.

VATTENFALL

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).





Hydrology, Hydrogeology and Geology

There are several bodies of water, watercourses and peat on site. Our surveys will consider these as well as soils and rocks, in relation to protecting water quality and drainage.

Peat

Our research to date shows that there are areas of peat that will need to be carefully considered as we design the energy park.

To make sure that we minimise impacts and explore fully how the project could contribute to peat protection, restoration and improvement of local habitats, a Draft Peat Management Plan will be developed.

The aim is to mitigate potential impacts upon peat and peatland habitats, in the first instance by minimising peat excavation and disturbance, then to review options for reuse.

Hydrological modelling and probing techniques will be used to inform the location of the proposed turbines and associated infrastructure to ensure minimal disruption.

In South Wales, we are working in partnership to deliver one of the largest peatland restoration projects in Southern Britain and will bring that experience to this site.

Aviation, Telecoms, and Shadow Flicker

A number of key aviation constraints will be assessed in detail and consultation will take place with the UK Civil Aviation Authority, the MOD and the National Air Traffic Services.

Aviation lighting will be a requirement due to the proposed height of the turbines.

Telecoms companies will be consulted to ensure that the energy infrastructure does not interfere with any telecoms equipment.

Desk based research will determine any impacts on terrestrial television signals. It is unlikely that any impacts will be found.

Shadow flicker is where shadows cast by moving wind turbine blades land on properties and cause distraction. We will design the site to avoid any impact from shadow flicker on homes or local facilities.

Forestry

There are more than 600 hectares of forest on the site which is in private ownership and actively managed for commercial purposes. The forest areas are largely made up of non-native tree species.

A forestry baseline assessment will be undertaken to assess current crops, and an analysis of the impact of the proposed development and impact on the current and future crops will be carried out.

Some tree felling will be required, however woodland that has been designated as ancient semi-natural woodland will be avoided, and compensatory planting will be proposed.

Grid connection

Mynydd Lluest y Graig will be connected to the national grid. The grid connection is subject to a separate planning application. Grid route and connection points are yet to be determined.

It is widely acknowledged that grid capacity across the whole of the UK, and especially in mid Wales, is constrained.

There is not enough grid capacity to deal with growing electricity consumption, and as we decarbonise and move away from using fossil fuels such as oil and gas, our demand for electricity will rise even more. Vehicle electrification is one such example of this growing future need.

The Welsh and UK Governments, and the energy regulator, Ofgem, alongside the grid network companies are working together to come up with a network plan that will ensure we meet net zero by 2050.

Delwedd / Image by Michael Hall

Melanie Blayney ger y murlun a beintiwyd gan wirfoddolwyr lleol yng Nghanolfan Gymunedol Penderyn / Melanie Blayney at the mural painted by local volunteers at Penderyn Community Centre

Buddsoddi yn yr ardal

Mae ystod eang o fuddion y mae prosiect ynni adnewyddadwy yn gallu ac yn dod i ardal leol, er enghraifft:

- Cyfleoedd i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol a'r gweithlu lleol yn ystod y cyfnod adeiladu
- Cyfleoedd am fuddsoddiad cymunedol a buddion mewn nwyddau
- Rhaglen gwella amgylcheddol i ddarparu enillion net bioamrywiaeth
- Gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n cyfrannu at dargedau lleihau carbon
- Cyfrannu at dargedau cenhedlaeth ynni adnewyddadwy Cymru
- Cyfleoedd am ranberchnogaeth
- Safle cynhyrchu ynni amrywiol yn cefnogi diogelwch cynhyrchu pŵer yn y DU a lleihau costau

Bydd Mynydd Lluest y Graig yn cynnwys cynlluniau ar gyfer buddsoddiad lleol a allai ddod â thua £675,000 o gyllid i'r ardal yn flynyddol yn ystod oes y prosiect. Mae nifer o bosibiliadau y gellir eu harchwilio – o fesurau i leihau biliau, i syniadau am sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn lleol a chefnogi'r economi leol yn yr hirdymor.

Investing in the area

There are a wide range of benefits that a renewable energy project can and does bring to a local area, some examples include:

- Opportunities to support the local supply chain and workforce during construction
- Community investment and benefits in-kind opportunities
- An environmental enhancement programme to provide a biodiversity net gain
- Reduction of greenhouse gas emissions, contributing to carbon reduction targets
- Contribution to Wales' renewable energy generation targets
- Shared ownership opportunities
- A diverse energy generation plant supporting the security of UK power production and reducing costs

Mynydd Lluest y Graig will include plans for local investment that could bring around £675,000 of funding to the area annually for the lifetime of the project. There are many possibilities that can be explored – from measures that could reduce energy bills, to ideas to tackle climate change locally and support the local economy over the long term.

VATTENFALL

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).

Fferm Wynt Pen y Cymoedd Wind Farm

Vattenfall yng Nghymru

Delwedd / Image by Michael Hall

Pan fydd Vattenfall yn adeiladu prosiect, mae'r ffocws ar ddod â buddsoddiad a chyfleoedd i gymunedau lleol – rydym yn arddangos hyn ar hyn o bryd ym Mhen y Cymoedd.

Pen y Cymoedd yw ein fferm wynt flaenllaw ar y tir rhwng Castell-nedd ac Aberdâr. Daeth ei 76 tyrbin, sy'n gallu cynhyrchu digon o drydan ar gyfer 15% o gartrefi Cymru yn flynyddol, yn weithredol yn 2017. Gall y batri 22MW ar y safle ymateb i anghenion y system grid mewn llai nag eiliad, gan gefnogi cyflenwad sefydlog o drydan.

Aeth 52% o'n buddsoddiad o £400 miliwn i adeiladu Pen y Cymoedd i fusnesau yng Nghymru, gan sicrhau gwaith i fwy na 1000 o weithwyr y wlad dros y cyfnod adeiladu o dair blynedd.

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd wedi cefnogi dros 300 o brosiectau llawr gwlad gyda mwy na £20.1m wedi cyrraedd cymunedau lleol yn y bum mlynedd gyntaf. Mae'r gronfa hefyd wedi cefnogi 27 o fannau gwyrdd, a grantiau a benthyciadau cymeradwy sy'n amrywio o £280 i £491,000. Mae cynllun rheoli cynefinoedd arloesol yn bodoli i adfer 1,500 hectar o gors ar draws ardal y fferm wynt. Mae'r prosiect wedi helpu i ddod â £6 miliwn o fuddsoddiad yn fyw mewn adfer mawndiroedd ar draws y safle ers iddo ddechrau gweithredu.

Vattenfall in Wales

Delwedd / Image by Michael Hall

Delwedd / Image by Michael Hall

When Vattenfall builds a project, the focus is on bringing investment and opportunity for local communities – we are demonstrating this right now at Pen y Cymoedd.

Pen y Cymoedd is our flagship onshore wind farm between Neath and Aberdare. Its 76 turbines, capable of generating enough electricity for 15% of Welsh homes annually, became operational in 2017. The 22MW battery on site can respond to the needs of the grid system in less than a second, supporting a stable supply of electricity.

52% of our £400 million investment to construct Pen y Cymoedd went to businesses in Wales, securing work for more than 1000 workers in the country over the three year construction phase.

Pen y Cymoedd Wind Farm Community Fund has supported over 300 grassroots projects with more than £20.1m brought into local communities in the first five years. The fund has also supported 27 green spaces, and approved grants and loans ranging from £280 to £491,000. The ground-breaking habitat management plan to restore 1,500 hectares of bog across the wind farm's area. The project has helped to bring to life a £6million investment in peatland restoration across the site since operation start.

VATTENFALL

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).

Mynydd Lluest y Graig – y dyfodol

Adborth a'r camau nesaf

Gan fod y cynlluniau ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy Mynydd Lluest y Graig yn y cyfnod cynnar iawn, maent yn debygol o newid wrth i ni ymgynghori gyda phobl leol a phartïon eraill â diddordeb a gwrando arnynt.

Credwn yn gryf mewn bod yn gymdogion da yn y mannau lle rydym yn datblygu, adeiladu a gweithredu ein prosiectau ynni. Efallai na fyddwn yn gallu gwneud yn union yr hyn rydych ei eisiau bob amser, ond ein haddewid i chi yw y byddwn yn gwrando ar eich adborth ac yn ymgysylltu'n onest ac yn wirioneddol gyda'ch persbectif. Mae croeso i chi gysylltu â ni unrhyw bryd.

- E-bost: Mynydd.windfarm@vattenfall.com
- Ffoniwch ni: 01938 530193
- www.vattenfall.co.uk/mllyg

Dangosol yn unig yw'r llinell amser isod.

Mynydd Lluest y Graig – the future

Feedback and next steps

As the plans for Mynydd Lluest y Graig renewable energy project are at a very early stage, they are likely to change as we consult with and listen to local people and other interested parties.

We believe strongly in being good neighbours in the places where we develop, build, and operate our energy projects. We may not be able to always do exactly what you want, but our promise to you is that we will listen to your feedback and engage honestly and genuinely with your perspective. You are welcome to get in touch with us at any time.

- Email: Mynydd.windfarm@vattenfall.com
- Call us: 01938 530193
- www.vattenfall.co.uk/mllyg

The timeline below is therefore indicative only.

Llinell Amser Ddangosol / Indicative Timeline

Yr ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol presennol	Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio ac arddangosfa gyhoeddus	Cyflwyno cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio a Amgylchedd Cymru	Penderfyniad gan Weinidog Llywodraeth Cymru yn dilyn archwiliad gan yr Arolygydd Cynllunio	Gallai'r safle fod yn weithredol
Hydref / Autumn 2022	**Gwanwyn / Spring 2023**	**Hydref / Autumn 2023**	**2024**	**Yn gynnar / Early 2030s**
The current informal public consultation	Statutory pre-application consultation and public exhibition	Submission of planning application to Planning & Environment Decisions Wales	Decision by Welsh Government Minister following examination by the Planning Inspector	Site could be operational

Cywir ar adeg cyhoeddi (Hydref 2022).

Correct at time of publication (October 2022).